# Caerdydd yn Arwain mewn Addysg sy'n Parchu Hawliau

Child Friendly Cardiff
Caerdydd Sy'n Dda i Blant

CARDIFF
CAERDYDD

2023–2026
DINAS SY'N DDA I BLANT
unicef
UNITED KINGDOM

Mae Caerdydd, Dinas sy'n Dda i Blant gyntaf UNICEF yn y Deyrnas Unedig, yn ymgorffori hawliau plant mewn addysg. Wedi ein hysbrydoli gan alwad plant am addysg sy'n eu grymuso i ddeall ac arfer eu hawliau, rydym yn falch o hyrwyddo Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF. Gydag ymrwymiad i fynediad teg a dull cynaliadwy wedi'i deilwra, mae Caerdydd wedi gosod meincnod cenedlaethol ar gyfer addysg sy'n seiliedig ar hawliau.

Caerdydd oedd y ddinas gyntaf yng Nghymru a Lloegr i ariannu'r wobr yn ganolog i bob ysgol. Ategir yr ymrwymiad hwn gan y ffaith mai Caerdydd yw dinas gyntaf y Deyrnas Unedig i gael swyddogion awdurdod lleol sydd wedi'u hyfforddi'n llawn fel aseswyr, gan alluogi cymorth wedi'i deilwra a chostau is.

**Mae ein nod yn glir:** Dinas lle mae pob ysgol gynradd ac arbennig yn cyflawni'r wobr Aur, gan ymgorffori hawliau plant yn rhan o daith pob plentyn yng Nghaerdydd.  Mae cyfeiriad Caerdydd yn cael ei yrru gan weledigaeth lle mae pob ysgol yn ymgorffori hawliau fel conglfaen i'w hethos a'i harferion.practice.




## Gwyliwch fideo UNICEF am y Wobr yn cynnwys disgyblion o Ysgol Gynradd Mount Stuart

# Beth yw'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau?

Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn cael ei deall orau fel fframwaith cynhwysfawr (gydag adnoddau a hyfforddiant) sy'n cefnogi ysgolion ar daith i ymgorffori hawliau plant ym mhob agwedd ar fywyd ysgol. O bolisïau ac arferion i ddylunio'r cwricwlwm, llais disgyblion, a pherthnasoedd o fewn cymuned yr ysgol, mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn cyflwyno dull strwythuredig â sicrwydd ansawdd o greu amgylcheddau addysgol sy'n parchu hawliau.

Mae'r daith drwy fframwaith y Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn cynnwys tri cham allweddol:

## Efydd

(Ymrwymo i Hawliau)

Y cam cynllunio cychwynnol, lle mae ysgolion yn amlinellu eu hymrwymiad i fod yn parchu hawliau. Mae'r cam hwn fel arfer yn cymryd 3-6 mis i'w gyflawni.

## Arian

(Ymwybodol o Hawliau)

Ar y lefel arian, gall ysgolion ddangos cynnydd sylweddol o ran ymgorffori hawliau plant yr ysgol gyfan yn ei pholisïau, ei harferion a'i hethos. Mae'r cam hwn fel arfer yn cymryd 6-12 mis i'w gyflawni ac mae'n cynnwys ymweliad asesu ffurfiol, gan roi adborth ac arweiniad ar gyfer y camau nesaf.

## Aur

(Parchu Hawliau)

Mae hwn yn cael ei rhoi gan UNICEF y DU i ysgolion sydd wedi ymgorffori hawliau plant yr ysgol gyfan yn llawn yn ei pholisïau, ei harferion a'i hethos, fel yr amlinellir ym Meysydd a Chanlyniadau'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Mae'r cam hwn fel arfer yn cymryd 1-3 blynedd i'w gyflawni ac mae'n cynnwys ymweliad asesu ffurfiol trylwyr. Mae ysgolion yn cael eu hailasesu ar gyfer y lefel aur bob tair blynedd.

# Pam mae'r Wobr yn Bwysig?

Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn trawsnewid ysgolion yn amgylcheddau lle mae hawliau plant yn cael eu hymgorffori ym mhob agwedd ar addysg. Mae'n cyd-fynd yn agos ag ymrwymiad Caerdydd i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant UNICEF, gan gael effaith wirioneddol ar brofiadau, deilliannau dysgu a datblygiad personol plant. Dyma rai o'r prif resymau pam mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn bwysig:

**Grymuso Plant:**

Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn meithrin dealltwriaeth plant o'u hawliau o dan CCUHP, gan eu galluogi i eirioli drostynt eu hunain ac eraill. Mae'n helpu i ddatblygu dinasyddion hyderus, gwybodus a gweithgar.

**Diwylliant Ysgol Cadarnhaol:**

Trwy ymgorffori hawliau plant, mae ysgolion yn meithrin amgylcheddau cynhwysol, parchus sy'n gwella perthnasoedd rhwng disgyblion, staff a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn creu ysgolion mwy diogel a hapusach lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

**Gwell Canlyniadau:**

Mae ymchwil yn dangos bod ysgolion sy'n parchu hawliau yn profi llai o waharddiadau, gwell presenoldeb, a gwell lles cymdeithasol ac emosiynol ymhlith disgyblion, gan feithrin rhyngweithio cadarnhaol a gwydnwch. Mae'r canlyniadau hyn yn cyfrannu at system addysg fwy effeithiol a theg.

**Dinasyddiaeth Fyd-eang:**

Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn cefnogi plant i ddeall eu rolau fel dinasyddion byd-eang, gan eu hannog i feddwl yn feirniadol am faterion fel cynaliadwyedd, cydraddoldeb a chyfiawnder.

**Cyd-fynd â'r Cwricwlwm a Dyletswyddau Deddfwriaethol yng Nghymru:**

Mae'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn ategu'r cwricwlwm newydd Cymru, sy'n blaenoriaethu addysg hawliau dynol. Mae'r cyd-fynd hwn yn sicrhau y gall ysgolion integreiddio addysg hawliau yn ddi-dor yn eu haddysg a'u harferion, gan gyflawni'r ddyletswydd ddeddfwriaethol ar "benaethiaid a chyrff llywodraethu i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o Ran 1 o'r CCUHP a'r CCUHPA ymhlith y rhai sy'n darparu addysgu a dysgu mewn perthynas â chwricwlwm yr ysgol."

## Sut mae Caerdydd yn Gwneud Hyn?

**Cymorth wedi'i Deilwra a Chynaliadwyedd:**
Mae Caerdydd wedi mabwysiadu model cynaliadwy drwy fod y ddinas gyntaf yn y Deyrnas Unedig i hyfforddi swyddogion awdurdodau lleol fel aseswyr y Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau. Mae'r dull arloesol hwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar aseswyr UNICEF, gan arbed costau wrth gynnig arweiniad a chymorth penodol i Gaerdydd. Mae ysgolion yn elwa ar gymorth pwrpasol drwy ymweliadau personol a mentora wedi'i deilwra, gan sicrhau eu bod yn symud ymlaen yn hyderus drwy gamau'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau wrth ymgorffori arferion cynaliadwy.

**Mynediad a ariennir yn ganolog:**
Caerdydd oedd y ddinas gyntaf yng Nghymru a Lloegr i ariannu'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn ganolog ar gyfer pob ysgol a gynhelir, gan ddileu rhwystrau ariannol a sicrhau mynediad cyfartal i ysgolion o bob maint a lleoliad.

**Arddangos Llwyddiant:**
Mae straeon ysgolion Aur yn dangos pŵer trawsnewidiol y Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, gan arddangos gwelliannau mewn presenoldeb, ymddygiad a chynhwysiant. Mae'r straeon llwyddiant hyn yn ysbrydoli ysgolion eraill i ddilyn.

**Cymunedau Maes:**
Mae ein digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn dod ag athrawon, disgyblion a staff o bob rhan o'r ddinas ynghyd i rannu arferion gorau, dathlu cyflawniadau, ac ysbrydoli gweithredu pellach. Mae'r digwyddiadau hyn yn creu rhwydwaith o ysgolion sy'n cael eu huno gan eu hymrwymiad i hawliau plant.

**Cydweithredu â UNICEF:**
Mae Caerdydd yn gweithio'n agos gydag UNICEF i gynnal hygrededd a safonau uchel y rhaglen, gan sicrhau bod ysgolion yn elwa ar yr adnoddau a'r hyfforddiant gorau.

## Beth Nesaf?

**Parhau i Symud Ymlaen gyda Dull Cynaliadwy:**
Hyfforddi aseswyr Aur i adeiladu ar lwyddiant aseswyr arian lleol, gan wella model wedi'i deilwra a chost-effeithiol Caerdydd ymhellach.

**Rhan o Daith Pob Plentyn:**
Sicrhau bod 62% o ysgolion cynradd ac arbennig yng Nghaerdydd yn cyflawni'r wobr Arian neu Aur erbyn mis Ebrill 2026, gan ddangos cynnydd sylweddol o ran ymgorffori hawliau plant.

**Ehangu Adnoddau a Hyfforddiant:**
Parhau i ddatblygu a darparu adnoddau, hyfforddiant a chymorth i sicrhau bod gan ysgolion yr offer sydd eu hangen er mwyn llwyddo.

**Cryfhau Rhwydwaith y Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau:**
Cynnal mwy o ddigwyddiadau a mentrau i greu cymuned faes gryfach, gan annog cydweithio a dysgu ar y cyd ymysg ysgolion.